Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Cefnen Waen-oer, Dinas Mawddwy

**ANODD/LLAFURUS**




## Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 14km (8.6 milltir)
- Hyd: 6 awr
- Math o daith: Yno ac yn ôl

## Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru




V-20220323/2130




Cerddwch o'r maes parcio, trowch i'r dde a cherddwch i fyny'r allt ar hyd y ffordd. Pan gyrhaeddwch ffordd fawr yr A470, croeswch y ffordd yn ofalus a throwch i'r dde gan gerdded ar hyd y glaswellt ar ymyl yr A470.




Ymhen dim, byddwch yn cyrraedd cilfan. Ar ddiwedd y gilfan, dilynwch y llwybr cyhoeddus ar y chwith i fyny drwy Goed Foeldinas hyd nes i chi gyrraedd trac y goedwig. Ar ôl i chi gyrraedd y trac, trowch i'r dde gan gerdded am oddeutu 130m cyn gwyro i ffwrdd o'r trac i'r chwith ar hyd y llwybr cyhoeddus.





Esgynnwch y llwybr serth troellog i fyny drwy'r coed nes i chi gyrraedd camfa droed. Croeswch y gamfa ac ewch ar draws y llwybr pren. Dilynwch y llwybr ar hyd ymyl y ffens ac o dan y coed. Parhewch i ddilyn yr arwyddbyst wrth i'r llwybr ddringo'n araf o amgylch llethrau Foel Dinas.





Dilynwch y llwybr i ben pella'r cwm, gan groesi camfa cyn cyrraedd Bwlch Siglen. Cerddwch ar hyd ymyl y ffens gan ddilyn y llwybr wrth iddo esgyn yn serth i fyny'r bryn gan gadw'r goedwig ar y chwith. Peidiwch â chroesi'r gamfa droed i mewn i'r goedwig. Pan gyrhaeddwch y ffens uwch ben y goedwig, trowch i'r dde gan ddilyn ymyl y ffens i fyny'r bryn tuag at Cae Afon.





Ar ôl cerdded oddeutu 1 milltir, croeswch gamfa droed ar y chwith gan anelu tuag at Gader Idris.




Cerddwch i lawr y mynydd gan gadw'r ffens ar eich chwith cyn dringo i gopa mynydd sy'n sefyll 587 troedfedd. Wedi hynny, dringwch i gopa Craig Portas.




Cerddwch i lawr o Graig Portas i'r bwlch ac yna dringwch lethrau Cribin Fawr o'ch blaen gan gadw'r ffens a'r goedwig ar eich chwith. Parhewch i ddilyn ymyl y ffens tan fyddwch chi'n cyrraedd at ddwy gamfa. Croeswch y gamfa ysgol ar y chwith.





Dilynwch y llwybr i lawr y bryn gan gadw'r ffens ar eich ochr dde y tro hwn a'r goedwig ar eich chwith. Croeswch y gamfa a dringwch drwy'r coed tuag at gopa Waun-oer. Byddwch yn gweld carnedd y copa ar y dde.




Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr gan gadw'r ffens ar eich dde a cherddwch ar hyd y gefnen hir tuag at Mynydd Ceiswyn.




Mewn oddeutu 2.5km, fe ddowch at gamfa ysgol ar y dde. Croeswch y gamfa a dilynwch y llwybr cyhoeddus i lawr y bryn. Anelwch tuag at y wal gerrig ar y dde yng nghornel waelod y cae a chadwch olwg am fwlch yn y ffens i groesi'r ffordd darmac.




Croeswch y ffordd darmac ac ewch trwy'r giât. Trowch i'r chwith a cherddwch ar hyd y ffordd darmac. Yna, trowch i'r dde i ddilyn y llwybr cyhoeddus gan ddilyn ymyl y wal gerrig ac ymlwybrwch i lawr tuag at Fwlch Llyn Bach.




Pan gyrhaeddwch ffordd fawr yr A487, yn hytrach na chroesi'r gamfa o'ch blaen, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr caniataol sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r ffordd fawr gan gadw'r ffens ar eich dde. Byddwch yn mynd heibio Llam y Lladron ar eich chwith. Croeswch y gamfa ar ddiwedd y llwybr caniataol a chroeswch y ffordd yn ofalus i faes parcio Bwlch Llyn Bach.